Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

4 Hydref 2019

Annwyl Elin

Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 27 Medi yn fy hysbysu ynghylch penderfyniad y Pwyllgor Busnes, mewn egwyddor, i gyfeirio Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gyfer craffu arno yng Nghyfnod 1 a Chyfnod 2.

Yn ei gyfarfod heddiw, bu'r Pwyllgor yn trafod yr amserlen ddrafft ar gyfer ystyried y Bil a nododd gynnig y Trefnydd i gael proses graffu wedi'i chwtogi. Mae'r Pwyllgor yn siomedig bod yr amserlen yn cyfyngu ar y cyfle iddo ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae goblygiadau iddi o ran ein blaenraglen waith, gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i ni aildrefnu busnes y Pwyllgor sydd wedi'i raglennu. Rydym wedi cytuno, fodd bynnag, i gyflawni'r terfynau amser a gynigir ar gyfer Cyfnod 1 a Chyfnod 2 y tro hwn.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565